Cronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd 2026/7

Cyflwyniad

Pwrpas y gronfa hon yw cefnogi trefnwyr digwyddiadau i gynnal digwyddiadau cynaliadwy sy'n creu bwrlwm yn ein cymunedau ac yn cefnogi egwyddorion yr economi ymweld er lles pobl, yr amgylchedd, iaith, a diwylliant Gwynedd.

Mae'r gronfa hwn yn cynnig cyfle i drefnwyr digwyddiadau sicrhau dyfodol eu digwyddiadau ac yn buddsoddi mewn arferion cynaliadwy i gefnogi eu datblygiad hirdymor.

Mae Cronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd 2026/27 ar gael i gefnogi digwyddiadau a gynhelir yng Ngwynedd rhwng y cyntaf o Ebrill 2026 a 5ed o Fawrth 2027 .

Cymorth ariannol y gallwch ymgeisio amdanynt : Gellir ymgeisio am hyd at £5,000 yn ddibynnol ar natur y digwyddiad.

Gellir ymgeisio am gyfran o arian refeniw neu cyfalaf ar gyfer eich digwyddiad. Gweler isod am y categorïau maint digwyddiadau a'r swm y gall eich digwyddiad ei gais am:

- Digwyddiad Bach/Lleol sydd yn denu mynychwyr a chynulleidfa lleiafrif o 1000. Mae hyd at £1000 o grant ar gael.
- Digwyddiad Canolig/ Sirol sydd yn denu mynychwyr a chynulleidfa o 1000-2,500. Mae hyd at £2,500 o grant ar gael.
- Digwyddiadau Mawr/ Cenedlaethol sydd yn denu mynychwyr a chynulleidfa o 3000+. Mae hyd at £5,000 o grant ar gael. **Os gellir tystiolaethu'r angen am ragor o adnoddau gellid ystyried cyfraniad uwch.**

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu ar eu cyfraniad i gymunedau, iaith, diwylliant, yr economi, yn ogystal a'u hystyriaeth gynaliadwyedd amgylcheddol.

Bydd y lefel terfynol o gymorth a gynigir ar ddisgresiwn y panel asesu.

Pwynt cyswllt ar gyfer trafod eich cais:

Hannah Williams - Ymgynghorydd Digwyddiadau:

digwyddiadau@gwynedd.llyw.cymru - 07721815244

Amcan bras o’r amserlen prosesu cais

Dyddiad	Cam yn y broses
01/04/2026	Dyddiad agor y gronfa Datblygu Digwyddiadau 2026/7
15/05/2026	Dyddiad Cau y Gronfa – 12 yp
18/05/2026	Proses asesu ceisiadau yn cychwyn/
29/05/2026	Canlyniadau cais yn cael i’w gyhoeddi

Beth sydd angen i'w gynnwys wrth gyflwyno ’r cais

Mae’n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno’r wybodaeth ganlynol gyda’u ffurflen cais. Ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hystyried.

- Ffurflen Gais
- Tystiolaeth o amcan brisiau / dyfynbrisiau ar gyfer costau’r digwyddiad
- Datganiad banc gan gynnwys manylion cyfrif, cod didoli, cyfeiriad y banc
- Tystiolaeth o unrhyw gyfraniadau eraill tuag at y cynllun (tystiolaeth o arian cyfatebol y cynllun)
- Cynllun Rheoli digwyddiad
- Mae croeso i chi gynnwys llythyr cefnogaeth ac unrhyw dystiolaeth arall all gefnogi eich cais
- Os yw eich digwyddiad wedi digwydd cyn y dyddiad cyflwyno, rhowch fanylion llawn o'r costau.
- os ydych yn trefnu sawl digwyddiad yng Ngwynedd, gellir cyflwyno un cais ar gyfer y cyfres o ddigwyddiadau. Dylid nodi allbynnau a chostau manylion unigol y digwyddiadau o fewn yr un ffurflen gais.

Os yw eich cais yn llwyddiannus bydd y llythyr cynnig yn amodol i dderbyn tystiolaeth pellach o'r dogfennau isod:

- Asesiad risg eich digwyddiad, cynllun rheoli traffig ac cynllun arwyddion (os yn berthnasol)
- Copi o Gyfansoddiad y Sefydliad wedi ei arwyddo a’i ddyddio
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb
- Tystiolaeth o ganiatâd defnydd tir.

Dylid dychwelyd y ffurflen gais i - digwyddiadau@gwynedd.llyw.cymru

Dyddiad cau - 12 yp - 15/05/2026

Ffurflen Gais – Cronfa Datblygu Digwyddiadau 2026/7

Adran 1 - Manylion Ymgeisydd		
1.	Prif sefydliad sy'n cyflwyno y cais	**Nodwch Fanylion**
2.	Cyfeiriad y Sefydliad	
3.	Beth yw natur eich sefydliad?	
4.	Rhif y Cwmni /Elusen	
5.	Enw, e-bost a rhif ffôn cyswllt arweiniol	Enw : E-bost : Rhif ffôn :
6.	Enw, e-bost a rhif ffôn cyswllt eilaidd	Enw : E-bost: Rhif ffôn:
7.	Cyfeiriad Gwefan y sefydliad	
8.	Oes gan eich sefydliad gyfrif banc yn ei enw sydd angen llofnod dau berson i awdurdodi taliadau?	
9.	Ydi eich grwp yn hawlio TAW ? Nodwch eich rhif TAW?	
10.	Beth yw prif weithgaredd ac amcanion eich sefydliad?	
11.	Os ydych yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, nodwch pa gamau a gymerir i'w diogelu.	

Adran 1.2 - Manylion Digwyddiad		
12.	Enw Digwyddiad	
13.	Lleoliad Digwyddiad	
14.	Dyddiad y Digwyddiad	

15.	Nifer y gynulleidfa a ragwelir ar nifer fynychodd y flwyddyn cynt (os yn gymwys)/	2026: 2025:
16.	Allbynnau rhagwelir yn 2026/ -Nifer yn cymryd rhan yn y digwyddiad: -Nifer o fusnesau lleol a gyflogwyd ar gyfer y digwyddiad: -Nifer o wirfoddolwyr: -Nifer o bobl ifanc fydd yn cael cyfle i fod yn rhan o'r digwyddiad: -Amcan Budd Economaidd:	
17.	Dyddiad Sefydlu'r digwyddiad:	
18.	Ffi mynediad ar gyfer yr ŵyl / digwyddiad:	£
19.	Ydych yn Cydweithio ag eraill?, os ydych nodwy'ch pwy :	

Adran 2- Manylion y digwyddiad
20. Manylion bras y digwyddiad gan gynnwys enghreifftiau o weithgareddau a phrofiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y digwyddiad – a dylai'r rhain anelu at gynnwys elfennau newydd, arloesol i sicrhau bod y digwyddiad yn cynnig profiad cyffrous i ymwelwyr, masnachwyr a'r gymuned leol/
Uchafswm geiriau 300

Adran 2.1
21. Disgrifiwch sut rydych chi'n bwriadu defnyddio'r arian grant rydych chi'n gwneud cais amdano, ac esboniwch sut y bydd y gefnogaeth hon yn datblygu eich digwyddiad?
Uchafswm geiriau 300

Adran 3
22. Nodwch sut bydd defnydd y grant yn plethu gydag amcanion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 - Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 • Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth/ • Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd • Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn fwy nac unrhyw anfanteision • Cyfeiriwch at eich polisi iaith

Uchafswm geiriau 300

3.1 Cydraddoldeb
23. Disgrifiwch sut ydych chi wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb eich digwyddiad, gan nodi unrhyw fesurau yr ydych yn eu cynnig mewn ymateb i'r effeithiau hyn.
Uchafswm geiriau 150

Adran 4	**Profiad a Chapasiti**
24.	Rhowch fanylion strwythur y sefydliad a chynlluniau cyfredol/yn y dyfodol, gan bwysleisio eich gallu i ddarparu digwyddiad llwyddiannus. Pa brofiad sydd gan eich sefydliad o drefnu digwyddiad or math ar maint yma?
	Uchafswm geiriau 300

25.	A yw eich digwyddiad wedi arwyddo i fyny/ cofrestru gyda chorff llywodraethu cenedlaethol? Os ydyw, nodwch enw'r sefydliad.	
	Uchafswm geiriau 300	
26.	A yw'r digwyddiad wedi mynychu cyfarfod **grŵp Ymgynghorol diogelwch Gwynedd**? Os ydy, nodwch ddyddiad y cyfarfod diweddaraf.	**Dyddiad:**

Adran 5 - Gwybodaeth Ariannol		
27.	Cyfanswm cost y Digwyddiad	£
28.	Cyfanswm y grant gwneir cais amdano drwy'r gronfa yma	£
29.	Ffynhonnell a Swm yr arian cyfatebol	£ **Ffynhonnell :**
30.	Os ydych yn gofyn am 100% o gost eich prosiect nodwch eich rhesymeg dros hynny	

5.1 Proffil gwariant	
Disgrifiad o'r costau	Swm
	£
Cyfanswm Costau	£
Cyfanswm y Grant y gofynnir amdano	£
Cyfanswm Arian Cyfatebol	£

6. Datganiad o Awdurdod	
Rwyf yn cadarnhau ar ran y grŵp sydd yn cyflwyno'r cais yma fy mod â'r awdurdod i gyflwyno'r cais. Mae'r holl wybodaeth ar y ffurflen yma, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn wir ac yn gywir. Rwyf yn deall y bydd rhaid gwario'r grant yn unol â thelerau ac amodau'r cynnig ac os na chedwir at yr amodau mae'n bosib bydd rhaid ad-dalu'r grant yn rhannol neu yn gyfan gwbl.	
Enw'r prif berson cyswllt:	
Ail enw cyswllt o'r pwyllgor: Dyddiad:	

7. **DATGANIAD SWM LLAWN O GYMORTH GWLADWRIAETH**

Ffurflen Rheoli Cymhorthdal Awdurdod Statudol

Darperir y grant yma o dan Isafswm Cymorth Ariannol (ICA) Deddf Rheoli Cymhorthdal (2022) Nid yw'r cyllid yn cwmpasu mwy na £315,000 dros gyfnod cyllidol o dair blynedd fel 'Isafswm Cymorth Ariannol (ICA), yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022).

Felly, er mwyn cadarnhau eich bod yn gallu cael y cymorth hwn, fel y nodir yn adran 36(1) o'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022) rhaid i chi felly ddatgan swm llawn o gymorth Cymorth Gwladwriaeth yr UE *de Minimus/SAFA/SPEI/ICA* rydych chi wedi'i gael yn ystod y 36 mis diwethaf.

Bydd gofyn i bob busnes / sefydliad sy'n ceisio cefnogaeth gydnabod y rheolau a gwneud yn siŵr na fydd y cymorth a roddir dan y rhaglen hon yn uwch na'r uchafswm cymorth a ellir ei roi i sefydliad dan y rheoliadau hyn.

NAILL AI: Rwy'n datgan mai dyma'r symiau o gymorth Cymorth Gwladwriaeth yr UE *de Minimus*/SAFA/SPEI/ICA a gafodd y sefydliad yn y tair blynedd diwethaf (mi fydd unrhyw lythyr cynnig grant yn nodi pa gymorth sydd wedi ei roi)

Blwyddyn:	**Blwyddyn:**	**Blwyddyn:**	**CYFANSWM**
Swm:	**Swm:**	**Swm:**	
Corff / Cyrff Ariannu:	Corff / Cyrff Ariannu:	Corff / Cyrff Ariannu:	

NEU: **Rwy'n datgan nad yw'r busnes hwn wedi cael unrhyw Gymorth Gwladwriaeth yr UE *de Minimis/SAFA/SPEI/MFA yn ystod y 3 blynedd diwethaf (ticiwch y bocs)*** ☐

Rhaid i ni gael y wybodaeth yma er mwyn gwneud yn siŵr:

- Nad yw'r cymorth a roddir, wrth ei gyfuno â chymorth de-minimis arall y mae eich sefydliad wedi'i gael yn y 3 blynedd diwethaf yn fwy na £315,000.
- Na fydd eich sefydliad yn cael cymorth ICA/SPEI mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd pe byddai, wrth ei gyfuno â'r cymorth a roddwyd, yn fwy na £315,000.

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion am gymorth ICA unigol am 3 mlynedd o'r dyddiad y'i rhoddwyd. Os yw'r swm grant hwn yn fwy na £100,000, mae'n ddarostyngedig i'r gofynion tryloywder, ac yn golygu ein bod ni fel Awdurdod Cyhoeddus yn gorfod cynnwys manylion y grant ar y gronfa ddata rheoli cymhorthdal domestig.

DATGANIAD - I'W LENWI GAN YR YMGEISYDD

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais yn gywir. Rwy'n deall y bydd rhaid i mi ad-dalu unrhyw gymorth ariannol a roddir neu na fydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu talu os darganfyddir bod y wybodaeth yma'n anghywir.

Ticiwch yma:

☐

8. Rhestr wirio	
Cwblhewch y rhestr wirio hon i ofalu fod y cais yn gyflawn ac eich bod wedi amgáu y canlynol gyda'r ffurflen gais ar e-bost.	
Ffurflen Gais	
Tystiolaeth o amcan brisiau / dyfynbrisiau ar gyfer costau'r digwyddiad	
Datganiad banc gan gynnwys manylion cyfrif, cod didoli, cyfeiriad y banc	

Tystiolaeth o unrhyw gyfraniadau eraill tuag at y cynllun (tystiolaeth o arian cyfatebol y cynllun)	
Cynllun Rheoli digwyddiad	

Dylid dychwelyd y ffurflen gais i: digwyddiadau@gwynedd.llyw.cymru

Dyddiad cau : 12yp - 15/05/2026

Datganiad Preifatrwydd

Bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio eich gwybodaeth i asesu eich cais am Gronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd 2026/7. Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag holl aelodau'r panel asesu. . Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw, yn unol â pholisi cadw Cyngor Gwynedd. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data ewch i Data protection (llyw.cymru).